CEFNOGI CREADIGRWYDD
CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
THE ARTS COUNCIL OF WALES
SUPPORTING CREATIVITY

# Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol

## Adroddiad a Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

Rhif yr elusen 1034245

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**
**CYFRIF GWEITHGAREDDAU CYFFREDINOL**

## CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol | 1 |
| Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr | 3 |
| Datganiad ar reolaeth fewnol | 7 |
| Tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru | 9 |
| Datganiad o weithgareddau ariannol | 10 |
| Mantolen | 11 |
| Datganiad llif arian | 12 |
| Nodiadau sy'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol | 13 |

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL – CYFRIF GWEITHGAREDDAU CYFFREDINOL**
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

**GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL**

**Ymddiriedolwyr**

Yr aelodau o'r Cygnor a fu'n gwasanaethu ers 1 Ebrill 2003 oedd:

| | |
|---|---|
| Geraint Talfan Davies, Cadeirydd | (b) (d) (iii) (v) |
| Dewi Walters, Dirprwy-gadeirydd | (a) (e) |
| Simon Dancey (o 1 Ebrill 2004) | (f) |
| Dai Davies | |
| Meg Elis | (e) |
| Edmond Fivet (hyd at 6 Hydref 2003) | (f) |
| Stephen Garrett (hyd at 31 Mawrth 2004) | (f) |
| Ellen ap Gwynn (hyd at 31 Mawrth 2004) | (b) (d) (i) (iv) |
| Rhiannon Wyn Hughes MBE (o 1 Ebrill 2004) | (a) (e) |
| Harry James | (c) (d) (ii) |
| Daniel Jones (hyd at 31 Mawrth 2004) | (f) |
| John Metcalf (o 1 Ebrill 2004) | (d) |
| Christopher O'Neil (o 1 Ebrill 2004) | (f) |
| Huw Roberts (o 1 Ebrill 2004) | |
| Janet Roberts | (b) (c) (e) |
| Penny Ryan OBE (hyd at 31 Mawrth 2004) | (a) (c) (d) |
| Dr Francesca Rhydderch (o 1 Ebrill 2004) | (d) |
| Yr Athro Dai Smith (o 1 Ebrill 2004) | |
| Ruth Till (o 1 Ebrill 2004) | (f) |
| David Vokes (o 1 Ebrill 2004) | (a) |
| Hazel Walford Davies (hyd at 31 Mawrth 2004) | (d) (ii) |

(a) Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
(b) Aelod o'r Pwyllgor Personél
(c) Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf
(d) Aelod o Bwyllgor Rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin
(e) Aelod o Bwyllgor Rhanbarthol y Gogledd
(f) Aelod o Bwyllgor Rhanbarthol y De

Am o leiaf ran o'r cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn gwasanaethodd aelodau o'r Cyngor (y nodir rhif mewn cromfachau wrth ochr eu henwau yn y rhestr uchod) fel Aelodau hefyd o'r cyrff cyhoeddus canlynol sydd â gweithgareddau tebyg:

(i) Cyngor Sir Ceredigion
(ii) Llyfrgell Genedlaethol Cymru
(iii) Yr Awdurdod Radio
(iv) Prifysgol Cymru, Aberystwyth
(v) Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

**Prif Weithredwr**

Peter Tyndall

**Swyddfeydd**

*Rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin:*
6 Gardd Llydaw
Jackson's Lane
Caerfyrddin
SA31 1QD

*Rhanbarth y Gogledd:*
36 Prince’s Drive
Bae Colwyn
LL29 8LA

*Rhanbarth y De:*
9 Plas-yr-amgueddfa
Caerdydd
CF10 3NX

**Archwilydd**

Archwilydd Cyffredinol Cymru
3-4 Plas-y-parc
Caerdydd
CF10 3DP

**Bancwyr**

National Westminster Bank ccc
Swyddfa Masnachol De Cymru
Haywood House South
Blwch Post 333
Plas Dumfries
Caerdydd
CF10 3GL

**Cyfreithwyr**

Edwards Geldard
Dumfries House
Plas Dumfries
Caerdydd
CF10 3ZF

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR**

## Statws ac amcanion

Sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Cymru trwy Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994. Amcanion siartredig y Cyngor yw:

(a) datblygu a gwella ymarfer y celfyddydau, a gwybodaeth a dealltwriaeth ohonynt;

(b) cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;

(c) cynghori a chydweithredu ag Adrannau ein llywodraeth, awdurdodau lleol, Cynghorau Celfyddydau Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chyrff eraill ar unrhyw faterion yn ymwneud, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â'r amcanion uchod; a

(ch) gweithredu'r amcanion trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r Cyngor yn elusen gofrestredig, rhif 1034245, a'i hymddiriedolwyr yw'r Aelodau penodedig.

## Rheolaeth a phwyllgorau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n penodi Aelodau Cyngor y Celfyddydau, y maent fel arfer yn gwasanaethu am gyfnod o dair blynedd ac y gellir eu hailbenodi am dair blynedd pellach. Yn ystod y cyfnod a adolygir cyfarfu'r Cyngor naw gwaith.

Mae'r Cyngor wedi penodi nifer o bwyllgorau i roi cyngor arbenigol ac i wneud penderfyniadau o fewn fframwaith o bwerau dirprwyedig; y rhain yw: y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Personél, y Pwyllgor Cyfalaf, Pwyllgor Rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin, Pwyllgor Rhanbarthol y Gogledd a Phwyllgor Rhanbarthol y De. Ym mhob pwyllgor ceir aelodau o'r Cyngor ac unigolion eraill ac maent yn gweithredu o dan gylch gorchwyl penodol. Yn ogystal, lluniwyd Rhestr Genedlaethol o Ymgynghorwyr, y penodir ei haelodau gan y Pwyllgor Personél i roi cyngor arbenigol.

Mae cofrestr o fuddiannau Aelodau'r Cyngor a'i Bwyllgorau a'i Ymgynghorwyr Cenedlaethol, ynghyd â chofrestr o fuddiannau cyflogeion y Cyngor ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus, trwy drefniant, ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

## Atebolrwydd

Yn ogystal â gofynion y Siarter Frenhinol, gweithreda'r Cyngor dan drefn atebolrwydd sy'n cynnwys:

- Deddfau Elusennau 1960 a 1993;
- Datganiad Rheoli, Memorandwm Ariannol a Chyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Cyfarwyddiadau ar Bolisi, Cyfarwyddiadau Ariannol a Chyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan delerau adran 26 Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd);
- pŵer y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddiaeth (yr Ombwdsmon) i ymchwilio i faterion y Cyngor;
- Cod Arfer Gorau, sy'n berthnasol i Aelodau a staff, yn gosod y safonau ymddygiad sy'n ofynnol gan y sawl sy'n ymwneud â phenderfyniadau ariannol ac yn ymdrin â'r cyhoedd.

Gellir cael copïau o'r Cyfarwyddiadau ar Gyfrifon a'r Cod Arfer Gorau am ddim trwy ysgrifennu at Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Canolog y Cyngor.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor roi cyfrif ar wahân am ei weithgareddau cyffredinol a'i weithgareddau dosbarthu arian y loteri. O dan Gyfarwyddiadau ar Gyfrifon ar wahân mae'r broses o roi cyfrif am grantiau cyffredinol a grantiau'r loteri yn wahanol iawn ac felly, gan roi ystyriaeth ddyledus i baragraff 280 Datganiad o Arferion Cymeradwy y Comisiwn Elusennau, ym marn yr Ymddiriedolwyr, nid yw'n briodol llunio cyfrif cyfunol am na fyddai'n cyflwyno darlun teg o'r ffordd y defnyddir adnoddau'r Cyngor.

O dan delerau Deddf Llywodraeth Cymru 1998, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gyllido'r Cyngor oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 1 Gorffennaf 1999. Diwygiodd y Cyngor ei Siarter Frenhinol i'w wneud yn gwbl atebol a chyfrifol i'r Cynulliad, ac i alluogi i'w gyfrif gweithgareddau cyffredinol gael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### Rheoli risg

Yn sgîl yr arweiniad ar reolaeth gorfforaethol a gynhwysir yn Natganiad o Arferion Cymeradwy y Comisiwn Elusennau, mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried ac adolygu'r prif risgiau strategol, busnes a gweithredol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Cedwir cofrestr risg ar draws y sefydliad a chaiff systemau eu sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Mae gweithdrefnau yn cael eu rhoi ar waith i leihau unrhyw effaith bosibl ar y Cyngor pe byddai unrhyw un o'r risgiau hynny yn cael eu gwireddu.

### Prif weithgareddau a rhoi grantiau

Mae'r Cyngor yn derbyn cymorth grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhywfaint o gymorth ariannol gan gyrff cyhoeddus eraill. Y Cyngor yw un o'r cyrff sy'n gyfrifol am ddosbarthu arian i achosion da a godir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor roi cyfrif ar wahân am ei weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

Prif ddiben y Cyngor yw cefnogi a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru er budd pobl ledled Cymru. Y brif ffordd y ceisia'r Cyngor wneud hynny yw trwy roi grantiau rheolaidd ac unigol i sefydliadau ac unigolion. Ategir y grantiau hyn gan broses o fonitro ac asesu i sicrhau y defnyddir arian cyhoeddus yn effeithiol at y diben y'i bwriedir. Mae'r Cyngor hefyd yn rheoli ystod o weithgareddau a gwasanaethau heb grantiau, yn aml mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac eraill. Rhoddir mwy o fanylion am waith y Cyngor a'r hyn a gyflawnwyd ganddo yn 2003/2004 yn adroddiad blynyddol y Cyngor, a gyhoeddir ar wahân.

### Pwerau buddsoddi a pholisi

Rheolir pwerau buddsoddi gan y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n atal cronni balansau sylweddol o arian parod ac sy'n nodi bod yn rhaid i gronfeydd fod ar gael ar dermau mynediad uniongyrchol. Polisi'r Cyngor yw sicrhau'r cyfradd llog uchaf o fewn y telerau hyn. Ceir llog ar gyfradd a negodir sy'n gysylltiedig â chyfradd sylfaenol y banc ar bob balans credyd yng nghyfrifon cyfredol y Cyngor. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd cyfraddau uwch ar gael ar delerau Dros Nos neu Galw Cronfeydd Wrth Gefn y Trysorlys, felly pennir y cyfraddau llog cyfredol pob diwrnod gwaith ar gyfer adneuon cyfrif cyfredol, Dros Nos a Galw i bennu'r defnydd gorau o gronfeydd.

### Cronfeydd wrth gefn

Polisi'r Cyngor o ran cronfeydd cyfyngedig yw cofnodi ar wahân grantiau, rhoddion a ffynonellau eraill o incwm a dderbynnir at ddiben penodol neu ar gyfer prosiect penodol, neu lle gosodir cyfyngiadau sy'n fwy caeth nag amcanion cyffredinol y Cyngor. Defnyddiwyd yr holl adnoddau hyn a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn at eu diben bwriadedig.

Ar 31 Mawrth 2004 roedd y cronfeydd digyfyngiad o £4,489,000 (2003: £3,789,000) yn cynnwys cronfa ailbrisio wrth gefn o £2,592,000 (2003: £2,272,000) yn deillio o'r cynnydd yng ngwerth llyfr net eiddo rhydd-ddaliadol y Cyngor.

Mae'r rhan fwyaf o gronfeydd digyfyngiad y Cyngor wedi'u hymrwymo yn ystod y flwyddyn, yn unol ag amodau cymorth grant a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff unrhyw arian dros ben eu cario ymlaen a'u defnyddio i fodloni amcanion siartredig y Cyngor yn ystod y flwyddyn ganlynol. Nid oedd unrhyw gronfeydd penodedig ar 31 Mawrth 2004 (2003: £Dim).

### Canlyniadau ariannol

Dengys y cyfrifon, heb gynnwys gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri, gyfanswm adnoddau a dderbyniwyd am y flwyddyn o £23,376,000 (2002/2003: £21,759,000), adnoddau net a dderbynnir o £277,000 (2002/2003: adnoddau net a dderbynnir o £534,000), asedau cyfredol net o £804,000 (2003: £342,000) a chyfanswm balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2004 o £4,499,000 (2003: £3,799,000).

Ar 31 Mawrth 2004 roedd y Cyngor wedi cynnig yn ffurfiol £18,568,000 o grantiau ar gyfer 2004/2005 (2003/2004: £16,169,000).

Dengys cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri gyfran y Cyngor ar gyfer 2003/2004 o'r elw o'r Loteri Genedlaethol o £10,824,000 (2002/2003: £11,473,000). Cyfanswm cyfunol yr adnoddau a dderbyniwyd ar gyfer

gweithgareddau cyffredinol a gweithgareddau'r Loteri ar gyfer 2003/2004 oedd £35,788,000 (2002/2003: £35,647,000).

Cynhwysir grantiau cyffredinol ar y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol cyn gynted â'u cynigir. Dim ond pan fydd y derbynnydd yn derbyn y cynnig yn ffurfiol y codir grantiau'r loteri. Er na chodir pob un fel gwariant yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, yn ystod 2003/2004 cymeradwyodd y Cyngor grantiau Loteri gwerth £10,841,000 (2002/2003: £8,807,000). Ar y sail hon, cyfanswm cyfunol gwariant elusennol celfyddydol uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a gweithgareddau yn ymwneud â'r Loteri ar gyfer 2003/2004 oedd £32,055,000 (2002/2003: £28,244,000).

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol**

Nodir amcanion y Cyngor ar ddechrau'r Adroddiad hwn. Nodir ei bolisïau a'i strategaethau yn ei Strategaeth 5 Mlynedd ar Ddatblygu'r Celfyddydau a'i Gynllun Corfforaethol drafft ar gyfer 2005-2008.

**Eiddo rhydd-ddaliadol**

Ailbrisiwyd eiddo rhydd-ddaliadol y Cyngor ar 31 Mawrth 2004, a bu cynnydd o £320,000 yn eu gwerth llyfr net a gofnodwyd.

**Archwilio**

Penododd y Cyngor Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilydd allanol iddo, ar delerau a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cyflogeion anabl**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogi. Mae'r Cyngor yn anelu'n arbennig at sicrhau nad yw unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai gwirioneddol yn derbyn triniaeth fwy neu llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu statws fel rhiant, cenedl, cred wleidyddol, hil, crefydd na chyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Cyngor ar y Gofrestr Genedlaethol o Ddefnyddwyr Symbolau Anabledd, sy'n adlewyrchu ei ymrwymiad i sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael ar gyfer cyflogeion anabl.

**Cysylltiadau â chyflogeion**

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr undeb llafur Amicus-MSF, ac wedi llunio cytundeb ar ddulliau gweithredu gyda'r undeb hwnnw; bydd cynrychiolwyr y rheolwyr a'r undeb yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion sy'n peri pryder. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd adrannol rheolaidd ac mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr hysbysu eu staff am faterion a drafodwyd yn y Cyngor ac yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli.

**Ailstrwythuro'r broses werthuso**

Bydd newidiadau a gynlluniwyd i wella strwythur y Cyngor a ddatblygwyd yn 2003 ac a werthuswyd yn allanol yn 2003/2004 yn cael eu cyflwyno yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael. Cynlluniwyd y newidiadau hyn i wella atebolrwydd a chael gwell cysondeb wrth wneud penderfyniadau, tra'n parhau i roi'r cyfrifoldeb dros roi grantiau i'r timau rhanbarthol datganoledig.

**Talu credydwyr**

Polisi'r Cyngor yw talu cyflenwyr o fewn y telerau masnach y cytunir arnynt ac ufuddhau'n gyffredinol i egwyddorion Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llog) 1998. Talwyd 96% o'r anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr yn ystod 2003/2004 (2002/2003: 94%) o fewn y telerau contract y cytunwyd arnynt.

**Datganiad ar gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo**

O dan y Siarter Frenhinol dyddiedig 30 Mawrth 1994 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru â chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o faterion y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd ganddo a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi’r cyfrifon, mae’n ofynnol i’r Cyngor:

- cydymffurfio â’r cyfarwyddyd ar gyfrifon a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol ynghylch cyfrifo a datgelu, a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson;

- barnu a llunio amcangyfrifon ar sail resymol;

- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau arwyddocaol yn y datganiadau ariannol;

- paratoi’r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, onid yw’n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penodi’r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo’r Cyngor. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodolrwydd a rheoleidd–dra cyllid cyhoeddus a thros gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddir gan y Trysorlys.

| | |
|---|---|
| Peter Tyndall | Geraint Talfan Davies |
| Swyddog Cyfrifo | Cadeirydd |
| 16 Gorffennaf 2004 | 16 Gorffennaf 2004 |

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL**

## 1. Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros sicrhau y cynhelir system effeithiol o reolaeth fewnol gan Gyngor Celfyddydau Cymru, sy'n ategu'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor a nodir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru tra'n diogelu arian ac adnoddau cyhoeddus y mae gennyf gyfrifoldeb personol drostynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi yn y Memorandwm Ariannol a 'Government Accounting'.

## 2. Diben y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg yn rhesymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi. Seilir y system rheolaeth fewnol ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, gwerthuso'r tebygolrwydd y gwireddir y risgiau hynny a'u heffaith os digwydd hynny, a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004 a hyd at ddyddiad cymeradwyo adroddiad blynyddol a chyfrifon yr ymddiriedolwyr, ac yn unol ag arweiniad y Trysorlys.

## 3. Y gallu i ddelio â risg

Arweinir y broses o reoli risg gan yr Uwch Dîm Rheoli a chymeradwyir y broses honno gan y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio. Gall y staff reoli risg mewn ffordd sy'n briodol i'w hawdurdod a'u dyletswyddau drwy gael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o risg ac arweiniad mewn swydd. Sefydlwyd dangosyddion perfformiad a risg allweddol a chânt eu monitro yn rheolaidd.

## 4. Y fframwaith risg a rheoli

Cynhwysir manylion ar bob risg allweddol a rheolaethau lliniarol mewn cofrestr risg ar draws y sefydliad. Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am lunio a chynnal a chadw cofrestrau risg mwy manwl ar gyfer unrhyw weithgareddau newydd. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004, er enghraifft, nodwyd cyflwyniad system gyfrifo newydd fel blaenoriaeth risg ac fe'i rheolwyd yn briodol.

Ymgorfforir y broses o reoli risg yng ngweithrediadau allweddol y Cyngor drwy gyflwyno methodoleg blaenoriaethu yn seiliedig ar raddio risg. O'r adeg y derbynnir ceisiadau am arian ac y'u hasesir i'r broses o fonitro agweddau ariannol cynllun a dyfarniadau refeniw blynyddol, pennir categori o risg yn seiliedig ar feini prawf allweddol. Bydd y lefel o fonitro ansoddol ac ariannol yn dibynnu ar y categori o risg a bennir a'r rheolaethau lliniarol a nodir, a adolygir yn rheolaidd.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r prosesau canlynol:

- mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol y Cyngor;
- adroddiadau cyfnodol gan gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, i'r Cyngor, sy'n ymwneud â rheolaeth fewnol;
- adroddiadau rheolaidd gan archwilwyr mewnol a benodir gan y Cyngor, yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n cynnwys barn annibynnol yr archwilydd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Cyngor ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- adolygiadau rheolaidd i nodi a diweddaru'r cofnod o'r risgiau a wynebir gan y Cyngor;
- cynnal a chadw cofrestr risg ar draws y sefydliad;
- cyflwyno dangosyddion perfformiad allweddol.

Caiff unrhyw wendidau yn y fframwaith rheoli a nodir gan yr archwilwyr mewnol a'n hadolygiadau rheoli mewnol ein hunain eu hadolygu gan yr Uwch Dîm Rheoli sy'n sicrhau y cymerir camau adferol.

## 5. Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y Pwyllgor Archwilio sy'n goruchwylio gwaith yr archwilwyr mewnol, y rheolwyr gweithredol yn y Cyngor sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Yr wyf wedi fy nghynghori ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad effeithiolrwydd y system gan y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus y system ar waith.

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifo
16 Gorffennaf 2004

Ardystiwyd ar ran yr ymddiriedolwyr gan:

Geraint Talfan Davies
Cadeirydd
16 Gorffennaf 2004

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I GYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

Yr wyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 10 i 24, a baratowyd o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd o ganlyniad i ailbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifo a ddisgrifir ar dudalennau 13 i 15.

**Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd**

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 5 i 6 mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo hefyd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a gweddill cynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Caiff fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, eu sefydlu drwy statud, ac ystyriaf y safonau a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio a'r arweiniad moesegol sy'n berthnasol i'r proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ar p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a ydynt wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Elusennau 1993 a'r cyfarwyddiadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ym mhob cyswllt perthnasol a gafodd yr adnoddau a wariwyd a'r adnoddau a dderbyniwyd eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Adolygaf a yw'r datganiadau ar dudalennau 7 i 8 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Cyngor ag arweiniad y Trysorlys ar y Datganiad ar Reolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n ateb y gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw Datganiad y Swyddog Cyfrifo ar Reolaeth Fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, ac nid wyf wedi ystyried hynny. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau rheolaeth gorfforaethol y Cyngor na'i weithdrefnau o ran risgiau a rheoli.

**Sail y farn**

Cynheliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a'r dyfarniadau a wneir gan y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor, wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynheliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall a bod yr adnoddau a wariwyd ac a dderbyniwyd, ymhob achos perthnasol, wedi'u cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sydd yn eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn i:

- rhydd y datganiadau ariannol ddarlun gwir a theg o faterion Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2004 ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac y maent wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Elusennau 1993 a'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

- ym mhob ystyr berthnasol defnyddiwyd yr adnoddau a wariwyd ac a dderbyniwyd at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru

3-4 Plas-y-parc
Caerdydd
CF10 3DP

20 Gorffennaf 2004

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL**
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | | **Cronfeydd Digyfyngiad** | **Cronfeydd cyfyngedig** | **Cyfanswm 2004** | Cyfanswm 2003 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **ADNODDAU A DDERBYNIWYD** | | | | | |
| **Grantiau i'w derbyn** | | | | | |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 2 | 22,108 | 689 | 22,797 | 21,163 |
| Awdurdodau Lleol | 3 | - | - | - | 86 |
| | | 22,108 | 689 | 22,797 | 21,249 |
| **Incwm arall** | | | | | |
| Gwasanaethau a gwaith hyrwyddo uniongyrchol | 4 | 120 | 279 | 399 | 337 |
| Llog banc | | 56 | - | 56 | 46 |
| Incwm gweithredol arall | 5 | 124 | - | 124 | 127 |
| | | 300 | 279 | 579 | 510 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd** | | **22,408** | **968** | **23,376** | 21,759 |
| | | ===== | ===== | ===== | ===== |
| **ADNODDAU A WARIWYD** | | | | | |
| **Gwariant celfyddydol elusennol uniongyrchol** | | | | | |
| Grantiau a gwarantau | 6,7 | 18,460 | 801 | 19,261 | 17,657 |
| Gwasanaethau a gwaith hyrwyddo uniongyrchol | 6,7 | 1,542 | 167 | 1,709 | 1,605 |
| | | 20,002 | 968 | 20,970 | 19,262 |
| **Rheoli a gweinyddu** | | | | | |
| Staff | 6,8 | 1,206 | - | 1206 | 1,160 |
| Arall | 6,9 | 923 | - | 923 | 803 |
| | | 2,129 | - | 2,129 | 1,963 |
| **Adnoddau a wariwyd** cyn costau cyfalaf tybiannol | | 22,131 | 968 | 23,099 | 21,225 |
| Costau cyfalaf tybiannol | | 145 | - | 145 | 200 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | | **22,276** | **968** | **23,244** | 21,425 |
| | | ===== | ==== | ===== | ===== |
| **Adnoddau net a dderbyniwyd** | | 132 | - | 132 | 334 |
| Gwrthdroi costau cyfalaf tybiannol | | 145 | - | 145 | 200 |
| **ADNODDAU NET A DDERBYNIWYD AM Y FLWYDDYN** | | **277** | **-** | **277** | 534 |
| **Enillion a cholledion cydnabyddedig eraill** | | | | | |
| Enillion nas gwireddwyd wrth ailbrisio asedau sefydlog | | 423 | - | 423 | 409 |
| **CYNNYDD NET MEWN CRONFEYDD** | | **700** | **-** | **700** | 943 |
| Balansau cronfeydd a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill | | 3,789 | 10 | 3,799 | 2,856 |
| **Balansau cronfeydd a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth** | | **4,489** | **10** | **4,499** | 3,799 |
| | | ===== | ==== | ===== | ==== |

Mae pob gweithgaredd yn parhau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 13 i 24 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**MANTOLEN**
ar 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | 2004 £'000 | 2004 £'000 | 2003 £'000 | 2003 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau sefydlog anniriaethol | 10a | | 63 | | 57 |
| Asedau sefydlog diriaethol | 10b | | 3,632 | | 3,400 |
| | | | 3,695 | | 3,457 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Grantiau a dalwyd ymlaen llaw | 11 | - | | 4 | |
| Dyledwyr eraill a rhagdaliadau | 12 | 1,306 | | 1,096 | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | 839 | | 469 | |
| | | 2,145 | | 1,569 | |
| **Credydwyr:** symiau i'w talu o fewn blwyddyn | | | | | |
| Grantiau a gwarantau taladwy | | (940) | | (739) | |
| Credydwyr eraill: symiau i'w talu o fewn blwyddyn | 13 | (401) | | (488) | |
| | | (1,341) | | (1,227) | |
| **Asedau cyfredol net** | | | 804 | | 342 |
| **Asedau net** | | | **4,499** | | 3,799 |
| | | | ===== | | ===== |

Cynrychiolir gan:

| | Nodyn | 2004 £'000 | 2004 £'000 | 2003 £'000 | 2003 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd** | | | | | |
| Cronfeydd cyfyngedig | 14 | | 10 | | 10 |
| Cronfeydd digyfyngiad | 14 | | 4,489 | | 3,789 |
| | | | **4,499** | | 3,799 |
| | | | ===== | | ===== |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan

Peter Tyndall
Swyddog Cyfrifo
16 Gorffennaf 2004

Geraint Talfan Davies
Cadeirydd
16 Gorffennaf 2004

Mae'r nodiadau ar dudalennau 13 i 24 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

**DATGANIAD LLIF ARIAN**
am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2004

| | Nodyn | **2004** £'000 | 2003 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | 16a | 412 | 284 |
| Llog banc | | 56 | 46 |
| | | 468 | 330 |
| Gwariant cyfalaf | 16b | (98) | (128) |
| **Cynnydd mewn arian parod yn y flwyddyn** | 16c | **370** | 202 |
| | | ==== | ==== |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 13 i 24 yn rhan o'r cyfrifon hyn

**1. Polisïau Cyfrifo**

**a. Sail y gwaith paratoi**

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi eu haddasu i gynnwys rhai asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r Cyngor ar sail cost gyfredol. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifo a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn cydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 1993, Datganiad ar Arfer a Argymhellir "Accounting and Reporting by Charities" a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2000 gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr, a'r Datganiadau ar Arfer Cyfrifo Safonol a Safonau Adroddiadau Ariannol a gyhoeddwyd ac a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo cyn belled â bo'r gofynion hynny yn briodol. Nodir crynodeb o'r prif bolisïau cyfrifo a gymhwyswyd yn gyson isod.

O dan Gyfarwyddiadau ar Gyfrifon ar wahân mae'r broses o gyfrifo grantiau cyffredinol a grantiau'r loteri yn wahanol iawn felly, gan roi ystyriaeth ddyledus i baragraff 280 Datganiad y Comisiwn Elusennau ar Arfer a Argymhellir, ym marn yr Ymddiriedolwyr nid yw'n briodol cynhyrchu cyfrif cyfunol am na fyddai'n cyflwyno darlun teg o'r ffordd y defnyddir adnoddau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae cyfanswm cyfunol yr adnoddau net a dderbyniwyd a dangosiad o wariant cyfunol celfyddydol elusennol uniongyrchol i'w gael yn nodyn 21.

**b. Incwm**

Rhoddir cyfrif am yr holl incwm ar sail croniadau. Ymdrinnir â grantiau cyfalaf derbyniadwy fel adnoddau a dderbyniwyd.

**c. Dosbarthu arian y Loteri**

Nid yw'r datganiadau ariannol hyn yn cwmpasu gwaith y Cyngor o ddosbarthu arian y loteri; paratowyd datganiadau ariannol ar wahân ar gyfer hynny yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r Cyngor yn mynd i gostau sy'n cynnal ei weithgareddau cyffredinol a'i swyddogaeth o ddosbarthu arian y loteri. Yn unol â'r Cyfarwyddyd Ariannol a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r Cyngor yn dosrannu costau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes gweithgaredd hyn gan ystyried yr amser a dreulir neu'r adnoddau perthnasol a ddefnyddir gan y gwahanol weithgareddau.

**d. Adnoddau a ddefnyddir**

Rhoddir cyfrif am yr holl wariant ar sail croniadau ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n crynhoi'r holl gostau sy'n berthnasol i'r categori. Lle na ellir dosbarthu costau yn uniongyrchol o dan benawdau arbennig fe'u dyrannwyd i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

**e. Grantiau a gwarantau**

Telir cymorthdaliadau ar ffurf grantiau a gwarantau a gynigir yn ffurfiol i sefydliadau ac unigolion a noddir gan y Cyngor ac a dderbynnir yn ffurfiol ganddynt. Cynigir grantiau a gwarantau i gefnogi rhaglen o weithgareddau a gynllunnir ar gyfer blwyddyn ariannol arbennig, neu sydd i ddechrau yn ystod y flwyddyn honno, ac fe'u cynhwysir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn honno. Dangosir unrhyw symiau nas talwyd o'r grantiau a'r gwarantau ar ddiwedd y flwyddyn fel credydwyr ar y Fantolen. Caiff unrhyw flaendaliadau a wnaed sy'n berthnasol i grantiau a gymeradwywyd ar gyfer gweithgareddau mewn blynyddoedd i ddod eu dangos ar y Fantolen fel asedau cyfredol.

Rhestrir pob grant a gwarant yn adroddiad blynyddol y Cyngor, a gyhoeddir ar wahân. Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn rhoi gwybodaeth am lawer o'r gwaith hyrwyddo uniongyrchol a drefnir gan y Cyngor.

**f. Gwasanaethau a gwaith hyrwyddo uniongyrchol**

Mae gwasanaethau a gwaith hyrwyddo uniongyrchol yn cynnwys y costau uniongyrchol, gan gynnwys staff a dibrisiad, sy'n briodoladwy i weithgareddau elusennol sy'n ymwneud â'r celfyddydau.

**g. Rheoli a gweinyddu**

Mae costau rheoli a gweinyddu yn cynnwys yr hyn a gaiff ei wario ar waith gweinyddol y Cyngor, y broses o gydymffurfio â gofynion rheoliadol a statudol, a chostau anuniongyrchol.

**h. Cydnabod rhwymedigaethau**

Cydnabyddir rhwymedigaethau pan fo rhwymedigaeth i drosglwyddo buddiannau economaidd o ganlyniad i drafodion neu ddigwyddiadau yn y gorffennol.

**i. Cyfrifo cronfeydd**

Cronfeydd cyfyngedig yw'r rhai i'w defnyddio yn unol â'r cyfyngiadau penodol a bennir gan roddwyr neu a bennwyd gan y Cyngor at ddibenion penodol. Telir y gost o godi a gweinyddu cronfeydd o'r fath yn erbyn y gronfa benodol. Nodir nod a defnydd pob cronfa gyfyngedig yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Cronfeydd anghyfyngedig yw'r rhai sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor wrth iddo fodloni ei amcanion siartredig ac nas dyrannwyd at ddibenion eraill.

**j. Asedau sefydlog**

Mae'r Cyngor yn berchen ar ddau eiddo rhydd-ddaliadol. Mae Theatr y Rubicon yn cael ei phrisio'n flynyddol yn ôl ei gwerth ar y farchnad agored ar gyfer defnydd presennol, tra caiff Theatr y Sherman ei phrisio'n flynyddol ar sail cost dibrisiedig adeilad newydd.

Mewn datganiadau ariannol blaenorol ymdriniwyd â thrwyddedau meddalwedd cyfrifiaduron fel asedau sefydlog diriaethol. Yn unol ag Adroddiadau Blynyddol a Chyfarwyddyd ar Gyfrifon Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol ar gyfer 2003/04 ymdrinnir â hwy bellach fel asedau sefydlog anniriaethol.

Heblaw am eiddo rhydd-ddaliadol cynhwysir yr holl asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol ar gost hanesyddol llai lwfans dibrisio. Ym marn y Cyngor nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y gwerth llyfr a gwerth y farchnad.

**k. Dibrisiant**

Darperir dibrisiant ar asedau sefydlog anniriaethol a diriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ostwng cost neu brisiad pob ased i'w werth gweddilliol mewn llinell syth dros gyfnod y bywyd defnyddiol y disgwylir iddo ei gael fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Trwyddedau meddalwedd cyfrifiaduron | dros 3 blynedd |
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | dros 50 mlynedd neu'r bywyd defnyddiol disgwyliedig os yw'n is |
| Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | dros 10 mlynedd |
| Offer | dros 4 blynedd |
| System gyfrifiadurol | dros 3 blynedd (5 mlynedd yn flaenorol) |
| Cerbyd modur | dros 4 blynedd |

**l. Prydlesau**

Cynhwysir costau gweithredu prydlesau yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros fywyd y brydles.

**m. Pensiynau**

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi ei dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994 sy'n rhoi buddiannau diffiniedig i gyflogeion y Cyngor. Cynhwysir costau cyfraniadau'r Cyngor yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn rhannu cost y pensiynau dros gyfnod bywyd gwaith y cyflogeion.

**n. Trethiant**

Cynhwysir Treth ar Werth na ellir ei hadennill ac sy'n deillio o weithgareddau anfasnachol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu fe'i cyfalafir fel ased sefydlog lle bo hynny'n berthnasol.

**o. Cost cyfalaf tybiannol a godir**

Cynhwysir tâl cyfalaf tybiannol yn adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddir o fewn y costau gweithredol ac fe'i cyfrifir fel 3.5% (2002/2003: 6%) o gyfartaledd y cyfalaf a ddefnyddiwyd yn unol â gofynion Trysorlys EM . Yn unol ag arweiniad y Trysorlys gwyrdroir y tâl hwn fel nad oes effaith ar gronfeydd y Cyngor a gofnodir yn y fantolen.

**2. Grantiau i'w derbyn: Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae'r cymorth grant a ddangosir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn gyson â'r swm o arian a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel a ganlyn:

| | | | **2004** | 2003 |
|---|---|---|---|---|
| | **Cronfeydd anghyfyngedig** £'000 | **Cronfeydd cyfyngedig** £'000 | **Cyfanswm** £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Cymorth grant arian parod a dalwyd yn llawn | 22,108 | - | 22,108 | 20,544 |
| Cymorth grant atodol i ariannu gweithgareddau celfyddydol penodol | - | 689 | 689 | 619 |
| Cymorth grant a gredydwyd i adnoddau a dderbyniwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol | **22,108** | **689** | **22,797** | 21,163 |
| | ===== | ===== | ===== | ===== |

**3. Grantiau i'w derbyn: Awdurdodau lleol**

| | | |
|---|---|---|
| Hyd at 31 Mawrth 2003 derbyniodd y Cyngor gyfraniadau gan awdurdodau lleol i gefnogi gweithgareddau cyffredinol yn eu hardaloedd. Ers y dyddiad hwnnw mae'r awdurdodau lleol wedi ariannu gweithgareddau o'r fath yn uniongyrchol. | - | 86 |
| | ===== | ===== |

**4. Incwm arall: Gwasanaethau a gwaith hyrwyddo uniongyrchol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Contract Cymorth i Hyrwyddo Crefftau gydag Awdurdod Datblygu Cymru | - | 135 | 135 | 136 |
| Celfyddydau Rhyngwladol Cymru: cyfraniad gan y Cyngor Prydeinig | - | 64 | 64 | 17 |
| Cyfraniadau gan Gynghorau Celfyddydau eraill tuag at astudiaeth ymchwil cynulleidfa | - | - | - | 17 |
| Cyfraniadau tuag at bresenoldeb Cymru yn Venice Biennale | - | 53 | 53 | 45 |
| Cyfraniadau tuag at daith Arddangosfa Venice Biennale | - | 16 | 16 | - |
| Cyfraniad tuag at gynllun Taith Cymunedol Cynhadledd ASSITEJ | - | 11 | 11 | - : |
| cyfraniadau gan leoliadau | 89 | - | 89 | 86 |
| Ffioedd hyfforddi – Trafodaeth Farchnata | 3 | - | 3 | 4 |
| Taliadau Cynllun Casglu | 28 | - | 28 | 32 |
| | **120** | **279** | **399** | 337 |
| | ==== | ==== | ==== | ==== |

**5. Incwm arall: Incwm gweithredol arall**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau gwasanaethau grant | 15 | - | 15 | 19 |
| Grantiau a gwarantau cronedig nad oes eu hangen mwyach | 20 | - | 20 | 54 |
| Cyfraniad gan gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri at ddefnydd asedau sefydlog | 81 | - | 81 | 48 |
| Incwm amrywiol | 8 | - | 8 | 6 |
| | **124** | **-** | **124** | 127 |
| | ==== | ==== | ==== | ==== |

## 6. Adnoddau a wariwyd cyn costau cyfalaf tybiannol: Dadansoddiad o wariant swyddogaethol

| | Nodiadau | Gwariant celfyddydol elusennol uniongyrchol | | | Rheoli a gweinyddu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Grantiau a gwarantau taladwy (Nodyn 7) | Gwasanaethau a hyrwyddo gwaith uniongyrchol (Nodyn 7) | Cyfanswm | | |
| **2004** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheoli a gweinyddu | | | | | | |
| Costau staff | 8 | - | 292 | 292 | 1,206 | 1,498 |
| Costau eraill: | | | | | | |
| Costau gweithredol | 9 | - | - | - | 744 | 744 |
| Dibrisiant | 10c | - | 103 | 103 | 179 | 282 |
| | | - | 103 | 103 | 923 | 1,026 |
| Grantiau a gwarantau | | 19,261 | - | 19,261 | - | 19,261 |
| Cymorth celfyddydol arall | | - | 1,314 | 1,314 | - | 1,314 |
| **Adnoddau a wariwyd** | | **19,261** | **1,709** | **20,970** | **2,129** | **23,099** |
| 2003 | | | | | | |
| Adnoddau a wariwyd | | 17,657 | 1,605 | 19,262 | 1,963 | 21,225 |

## 7. Gwariant celfyddydol elusennol uniongyrchol: Dadansoddiad adrannol a dadansoddiad o'r cronfeydd

| | Cronfeydd anghyfyngedig | | Cronfeydd cyfyngedig | | 2004 | 2003 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Grantiau a gwarantau taladwy | Gwasanaethau a gwaith hyrwyddo uniongyrchol | Grantiau a gwarantau taladwy | Gwasanaethau a gwaith hyrwyddo uniongyrchol | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cymru gyfan | 1,808 | 1,346 | 398 | 144 | 3,696 | 3,831 |
| Y Canolbarth a'r Gorllewin | 3,680 | 85 | 192 | 23 | 3,980 | 3,595 |
| Y Gogledd | 3,660 | 8 | 9 | - | 3,677 | 3,108 |
| Y De | 9,312 | 103 | 202 | - | 9,617 | 8,728 |
| | **18,460** | **1,542** | **801** | **167** | **20,970** | 19,262 |

## 8. Costau staff

**a.** Mae cyfanswm y costau staff yn cynnwys:

| | Cronfeydd digyfyngedig | Cronfeydd cyfyngedig | 2004 Cyfanswm | 2003 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 1,206 | 19 | 1,225 | 1,141 |
| Yswiriant Gwladol y cyflogwr | 92 | 2 | 94 | 80 |
| Costau pensiwn | 176 | 3 | 179 | 127 |
| | 1,474 | 24 | 1,498 | 1,348 |
| Costau diswyddo | - | - | - | 5 |
| | **1,474** | **24** | **1,498** | 1,353 |
| | ===== | ===== | ===== | ===== |

| | 2004 £'000 | 2004 £'000 | 2003 £'000 | 2003 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ymgorfforir costau staff yn y cyfrifon fel a ganlyn: | | | | |
| Gwasanaethau a gwaith hyrwyddo uniongyrchol (nodyn 6) | | | | |
| Costau uniongyrchol | | 292 | | 193 |
| Rheoli a gweinyddu (nodyn 6) | | | | |
| Gweithrediadau cyffredinol | 1,206 | | 1,145 | |
| Ailstrwythuro | - | | 15 | |
| | | 1,206 | | 1,160 |
| | | 1,498 | | 1,353 |
| | | ===== | | ===== |

**8. Costau staff (parhad)**

**a. (parhad)**

| Nifer y staff a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn oedd: | Nifer | Nifer |
|---|---|---|
| Gwasanaethau, gwaith hyrwyddo uniongyrchol a chostau uniongyrchol rhoi grantiau | 10 | 9 |
| Rheoli a gweinyddu | 77 | 76 |
| | 87 | 85 |
| | === | === |

| Yn seiliedig ar ddyraniadau amser, nifer y staff a gyflogwyd ar gyfartaledd ar gyfer gweithgareddau cyffredinol yn ystod y flwyddyn oedd: | Nifer | Nifer |
|---|---|---|
| Gwasanaethau a gwaith hyrwyddo uniongyrchol | 9 | 8 |
| Rheoli a gweinyddu | 40 | 45 |
| | 49 | 53 |
| | === | === |

Cyflogwyd 38 (2003: 32) o staff ar gyfer gweithgareddau dosbarthu arian y loteri.

**b.** Mae'r Uwch Dîm Rheoli, yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr (hyd at 2 Mai 2003) a'r Cyfarwyddwyr, yn gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Roedd cyflogau gwirioneddol yr Uwch Reolwyr fel a ganlyn; caiff 55% ohonynt eu cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn a chodir y gweddill ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri:

| **Enw a swydd** | **2004** **Band cyflog** £'000 | **2004** **Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed** £ | **2004** **Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31/03/04** £ | **2004** **Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar 31/03/03** £ | **2004** **Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar 31/03/04** £ | **2004** **Cynnydd gwirioneddol yng Ngwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol** £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Peter Tyndall<br>*Prif Weithredwr* | 60-65 | 727 | 1,825 | 8,170 | 16,140 | 7,741 |
| Frances Medley<br>*Dirprwy Brif Weithredwr (hyd at 2 Mai 2003)* | 5-10 | (53) | 4,446 | 18,830 | 22,130 | 2,773 |
| Hywel Tudor<br>*Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Canolog* | 50-55 | 683 | 1,430 | 5,040 | 11,450 | 6,269 |
| Clare Thomas<br>*Cyfarwyddwr – y Canolbarth a'r Gorllewin* | 40-45 | 532 | 6,419 | 64,050 | 82,840 | 16,997 |
| Siân Tomos<br>*Cyfarwyddwr – y Gogledd* | 40-45 | 1,238 | 4,982 | 23,670 | 36,570 | 12,237 |
| David Newland<br>*Cyfarwyddwr – y De* | 40-45 | 520 | 2,766 | 11,000 | 16,100 | 4,792 |

Ni thelir y Cadeirydd, Aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgorau a'r Ymgynghorwyr Cenedlaethol am eu gwasanaethau. Mae costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer 2003/2004 a ddatgelir yn nodyn 9 yn cynnwys cyfanswm o £20,796 (2002/2003: £18,231) a ad-dalwyd i 9 (2002/2003: 9) o aelodau'r Cyngor.

Penodwyd y Prif Weithredwr ar 1 Hydref 2001 am gyfnod o bum mlynedd. Mae'n aelod cyffredin o Gynllun Pensiwn y Cyngor ac enillodd gyfanswm tâl gwirioneddol a oedd yn cynnwys:

| | **2004** £ | 2003 £ |
|---|---|---|
| Cyflog | 59,740 | 58,425 |
| Dyfarniad nas cyfunwyd | 4,528 | 1,425 |
| Cyfraniad pensiwn | 8,841 | 7,595 |
| | 73,109 | 67,445 |
| | ===== | ===== |

**8. Costau staff (parhad)**

**b. (parhad)**

Caiff 55% o dâl y Prif Weithredwyr ei gynnwys yn y datganiadau ariannol hyn a chodir y gweddill ar weithgareddau dosbarthu arian y loteri.

Ni dderbyniodd unrhyw gyflogai arall dâl (heb gynnwys costau pensiwn) a oedd yn fwy na £40,000 a, heblaw'r hyn a ddatgelwyd uchod, ni dderbyniodd unrhyw gyflogai fuddiannau mewn nwyddau.

**c.** Mae'r rhan fwyaf o'r cyflogeion yn aelodau o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddiannau diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun aml-gyflogwr felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran ef o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol â FRS17.

Cynhelir prisiad actiwaraidd annibynnol o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994 bob tair blynedd. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 1 Ebrill 2002 gan ddefnyddio'r Dull Uned Amcanol. Gwerth marchnad asedau'r Cynllun ar 31 Mawrth 2002 oedd £28.146m. Daeth yr actiwari i'r casgliad bod gan y Cynllun ddiffyg o ran gwasanaethau blaenorol ar y dyddiad prisio o £4.2m, sy'n cyfateb â chymhareb ariannol o 87%, ac argymhellodd gynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr dros y 15 mlynedd nesaf i'w waredu.

Gan dybio y byddai'r symiau a argymhellwyd yn cael eu talu i mewn i'r Cynllun, ym marn yr actiwari, mae adnoddau'r cynllun yn debygol o fodloni rhwymedigaethau'r cynllun yn llawn pan fyddant yn ddyledus, yn nhrefn arferol digwyddiadau. Y prif dybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd oedd y byddai chwyddiant prisiau yn 2.8% y flwyddyn, y byddai codiadau cyflog yn 4.3% y flwyddyn, byddai codiadau pensiwn yn 2.8% y flwyddyn ar bensiynau uwchlaw'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig, byddai codiadau pensiynau yn 2.8% y flwyddyn ar bensiynau gohiriedig uwchlaw'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig, byddai'r gyfradd ostyngol ar ôl ymddeol yn 5.7% y flwyddyn a byddai'r gyfradd ostyngol cyn ymddeol yn 7.2% y flwyddyn.

Cyfraniadau'r Cyngor a'i gyflogeion yn ystod y flwyddyn oedd 14.8% (2002/2003: 13%) a 0% (2002/2003: 0%) yn y drefn honno o'r cyflogau taladwy. Mae cyflogeion yn cyfrannu 1.5% i sicrhau buddiannau pensiwn i'w gŵyr/gwragedd. Cynyddodd cyfraniad y Cyngor o 1 Ebrill 2004 i 18.8%.

| **9. Costau Gweithredol** | | **2004** | 2003 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| Costau adeiladau | | 43 | 36 |
| Costau rhedeg swyddfa | | 160 | 138 |
| Prydlesau gweithredol | - adeiladau | 70 | 80 |
| | offer swyddfa | 3 | - |
| Recriwtio, hyfforddi a chostau staff eraill | | 106 | 99 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 75 | 71 |
| Cysylltiadau | | 35 | 80 |
| Lletygarwch | | 2 | 1 |
| TAW na ellir ei hadennill [1] | | 132 | 79 |
| Ffioedd proffesiynol | | 49 | 54 |
| Tâl yr archwilydd | - archwilio | 18 | 17 |
| | - sicrwydd ychwanegol | 3 | 3 |
| Diffyg gwaredu asedau | | - | 3 |
| Cynnydd yn narpariaeth | dyledion amheus | 48 | 3 |
| Ailstrwythuro | | - | 23 |
| | | 744 | 687 |

[1] Mae'r gost uwch am TAW na ellir ei hadennill o ganlyniad i ddyfarniad gan Dollau Tramor a Chartref EM. O 1 Mehefin 2003 dosbarthwyd y rhan fwyaf o weithgareddau'r Cyngor fel rhai nad oeddent yn ymwneud â busnes, felly gellir adennill cyfran lai o TAW yr aed iddi ar gyfer costau cyffredinol.

## 10. Asedau sefydlog

### a. Asedau sefydlog anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd cyfrifiaduron |
|---|---|
| | £'000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2003 | - |
| Cost a drosglwyddwyd o asedau sefydlog diriaethol (System gyfrifiadurol, dodrefn, ac ati.) | 270 |
| Cost a ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2003 | 270 |
| Ychwanegiadau | 84 |
| Cost ar 31 Mawrth 2004 | 354 |
| | ==== |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2003 | - |
| Dibrisiant a drosglwyddwyd o asedau sefydlog diriaethol (System gyfrifiadurol, dodrefn ac ati.) | 213 |
| Dibrisiant a ailddatganwyd ar 1 Ebrill 2003 | 213 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 78 |
| Dibrisiant ar 31 Mawrth 2004 | 291 |
| | ==== |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2004** | **63** |
| | ==== |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2003 (ailddatganwyd) | 57 |
| | ==== |

Mewn datganiadau ariannol blaenorol, ymdriniwyd â thrwyddedau meddalwedd cyfrifiaduron fel asedau sefydlog diriaethol o dan y pennawd 'System gyfrifiadurol, dodrefn ac ati'. Yn unol ag Adroddiadau Blynyddol a Chyfarwyddyd ar Gyfrifon Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol ar gyfer 2003/04 ymdrinnir â hwy bellach fel asedau sefydlog anniriaethol.

### b. Asedau sefydlog diriaethol

| | Tir ac Adeiladau | System gyfrifiadurol, dodrefn, ac ati. | Cerbyd Modur | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cost neu brisiad ar 1 Ebrill 2003 | 4,751 | 711 | 5 | 5,467 |
| Trosglwyddo i asedau sefydlog anniriaethol | - | (270) | - | (270) |
| Cost a aildatganwyd neu werthusiad ar 1 Ebrill 2003 | 4,751 | 441 | 5 | 5,197 |
| Ailbrisio | (1,204) | - | - | (1,204) |
| Ychwanegiadau | - | 14 | - | 14 |
| Gwarediadau | - | (2) | - | (2) |
| Cost neu brisiad ar 31 Mawrth 2004 | 3,547 | 453 | 5 | 4,005 |
| | ===== | ===== | ===== | ===== |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2003 | 1,500 | 509 | 1 | 2,010 |
| Trosglwyddo i asedau sefydlog anniriaethol | - | (213) | - | (213) |
| Dibrisiant a ailddatganwyd ar Ebrill 2003 | 1,500 | 296 | 1 | 1,797 |
| Ailbrisio | (1,627) | - | - | (1,627) |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 127 | 76 | 1 | 204 |
| Gwarediadau | - | (1) | - | (1) |
| Dibrisiant ar 31 Mawrth 2004 | - | 371 | 2 | 373 |
| | ===== | ===== | ===== | ===== |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2004** | **3,547** | **82** | **3** | **3,632** |
| | ===== | ===== | ===== | ===== |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2003 (ailddatganwyd) | 3,251 | 145 | 4 | 3,400 |
| | ===== | ===== | ===== | ===== |

## 10. Asedau sefydlog (parhad)

| | Tir ac Adeiladau | System gyfrifiadurol, dodrefn, ac ati. | Cerbyd Modur | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **c.** Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2004 yn cynrychioli asedau sefydlog a ddefnyddiwyd ar gyfer: | | | | |
| Gwariant celfyddydol elusennol uniongyrchol | | | | |
| Gwasanaethau a gwaith hyrwyddo uniongyrchol | 2 | - | - | 2 |
| Tenantiaid yn derbyn grantiau | 3,500 | - | - | 3,500 |
| | 3,502 | - | - | 3,502 |
| Rheoli a gweinyddu | 45 | 145 | 3 | 193 |
| | **3,547** | **145** | **3** | **3,695** |
| | ===== | ===== | ===== | ===== |

| | **2004** | 2003 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gwerth llyfr net tir ac adeiladau yn cynnwys: | | |
| Rhydd-ddaliad ar werth y farchnad agored at ddefnydd presennol | 200 | 180 |
| Rhydd-ddaliad ar gost adnewyddu wedi ei dibrisio | 3,300 | 3,000 |
| Gwelliannau prydlesau byr | 47 | 71 |
| | **3,547** | 3,251 |
| | ===== | ===== |

Prisiwyd tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol y Cyngor ar 31 Mawrth 2004 gan Cooke & Arkwright, y Syrfewyr Siartredig allanol ac annibynnol, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Defnyddir y ddau adeilad rhydd-ddaliadol gan drydydd partïon o dan delerau prydlesau gweithredol.

| | **2004** | 2003 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Mae'r dibrisiant a godwyd wedi ei ddyrannu fel a ganlyn: | | |
| Gwariant celfyddydol elusennol uniongyrchol | 103 | 89 |
| Rheoli a gweinyddu | 179 | 116 |
| | **282** | 205 |
| | ==== | ==== |

## 11. Grantiau a dalwyd ymlaen llaw

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau mewn perthynas â grantiau'r flwyddyn ganlynol | **-** | 4 |
| | ===== | ==== |

## 12. Dyledwyr a rhagdaliadau eraill (yn ddyledus o fewn blwyddyn)

| | | |
|---|---|---|
| Benthyciadau'r cynllun casglu | 381 | 314 |
| Dyledwyr masnach | 112 | 224 |
| Dyledwyr eraill | 57 | 93 |
| Rhagdaliadau | 136 | 107 |
| | 686 | 738 |
| Dyledus o gronfa dosbarthu arian y Loteri | 620 | 358 |
| | **1,306** | 1,096 |
| | ==== | ==== |

## 13. **Credydwyr eraill** (yn ddyledus o fewn blwyddyn)

| | **2004** £'000 | 2003 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 66 | 115 |
| Trethiant a chredydwyr nawdd cymdeithasol | 57 | 47 |
| Credydwyr eraill | 66 | 38 |
| Yn ddyledus i Dollau Tramor a Chartref EM am TAW a or-hawliwyd | 99 | - |
| Yn ddyledus o ran Gŵyl Jazz Aberhonddu (mewn datodiad), incwm a dderbyniwyd oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru | - | 111 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 97 | 176 |
| Incwm ymlaen llaw | 16 | 1 |
| | **401** | 488 |
| | ==== | ==== |

## 14. Datganiad o gronfeydd

| | **Ar 1 Ebrill 2003** £'000 | **Adnoddau a dderbyniwyd** £'000 | **Adnoddau a wariwyd** £'000 | **Gwaredu/ ailbrisio asedau** £'000 | **Ar 31 Mawrth 2004** £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 3,789 | 22,408 | (22,131) | 423 | 4,489 |
| **Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig** | **3,789** | **22,408** | **(22,131)** | **423** | **4,489** |
| | | | | | |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | | |
| Incwm | | | | | |
| Grantiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gweithgareddau celfyddydol penodol | - | 689 | (689) | - | - |
| Awdurdod Datblygu Cymru i gefnogi gweithgaredd crefft | - | 135 | (135) | - | - |
| Cyngor Prydeinig Cymru ar gyfer Celfyddydau Rhyngwladol | | 64 | (64) | | |
| Cyfraniadau tuag at bresenoldeb Cymru yn Venice Biennale | - | 53 | (53) | - | - |
| Cyfraniad tuag at Gynhadledd ASSITEJ | - | 11 | (11) | | |
| Cyfraniad tuag at daith Arddangosfa Venice Biennale | - | 16 | (16) | - | - |
| | - | 968 | (968) | - | - |
| Cyfalaf | | | | | |
| Cronfa Goffa Alun Llywelyn Williams (incwm i roi ysgoloriaeth i artist ifanc) | 10 | - | - | - | 10 |
| | 10 | - | - | - | 10 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd cyfyngedig** | **10** | **968** | **(968)** | **-** | **10** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | **3,799** | **23,376** | **(23,099)** | **423** | **4,499** |

Cynrychiolir cronfa Alun Llewelyn Williams gan arian yn y banc ac mae o fewn y cyfanswm o £839,000 a ddangosir ar y fantolen.

## 15. Dadansoddiad o'r asedau net rhwng cronfeydd

| | **Cronfeydd anghyfyngedig** £'000 | **Cronfeydd cyfyngedig** £'000 | **Cyfanswm** £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cynrychiolir balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2004 gan:** | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 3,695 | - | **3,695** |
| Asedau cyfredol | 2,135 | 10 | **2,145** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | (1,341) | - | **(1,341)** |
| **Cyfanswm yr asedau net** | **4,489** | **10** | **4,499** |

## 16. Gwybodaeth am y llif arian parod

**a. Cysoni newidiadau mewn adnoddau i fewnlif net o weithgareddau gweithredol**

| | **2004** £'000 | 2003 £'000 |
|---|---|---|
| Adnoddau net a dderbyniwyd cyn enillion a cholledion cydnabyddedig | 277 | 534 |
| Llog banc | (56) | (46) |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | 1 | 3 |
| Dibrisiant (nodyn 10) | 282 | 205 |
| Gostyngiad mewn grantiau a dalwyd ymlaen llaw | 4 | 16 |
| Cynnydd mewn dyledwyr a rhagdaliadau | (210) | (400) |
| Cynnydd mewn grantiau a gwarantau sy'n ddyledus | 201 | 69 |
| Gostyngiad mewn credydwyr eraill sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (87) | (97) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol** | **412** | 284 |
| | ==== | ==== |

**b. Dadansoddiad o'r llifau arian parod**

| | | |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol (nodyn 10a) | (84) | (18) |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol (nodyn 10b) | (14) | (110) |
| Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol | - | - |
| | **(98)** | (128) |
| | ==== | ==== |

**c. Cysoni llif arian parod i symudiad mewn cronfeydd net**

| | | |
|---|---|---|
| Cynnydd mewn arian parod yn y flwyddyn | 370 | 202 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | 469 | 267 |
| **Cronfeydd net ar 31 Mawrth** | **839** | 469 |
| | ==== | ==== |

## 17. Ymrwymiadau ar brydlesau gweithredol

Ar 31 Mawrth 2004 roedd gan y Cyngor ymrwymiadau blynyddol o dan brydlesau gweithredol na ellir eu diddymu fel y nodir isod:

| | **Tir ac adeiladau** | | **Offer a cherbydau** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2004** £'000 | 2003 £'000 | **2004** £'000 | 2003 £'000 |
| Prydlesau gweithredol a ddaw i ben o fewn un i bum mlynedd | 150 | 150 | 5 | 2 |

## 18. Digwyddiad Ôl-fantolen

Ar 20 Mai 2004 cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddiwylliant y byddai Cynllun Casglu'r Cyngor yn cael benthyciad cost isel gan Gymdeithas Adeiladu'r Principality. Bydd hyd at £500,000 ar gael am gyfnod o dair blynedd o 1 Awst 2004 ar gyfradd llog sefydlog manteisiol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cymeradwyo'r benthyciad hwn a bydd yn rhoi gwarant ar gyfer ad-dalu'r benthyciad yn ystod y cyfnod.

## 19. Blaen-ymrwymiadau

| | **2004** £'000 | 2003 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau | | |
| blaen-ariannu – grantiau a gynigiwyd yn ffurfiol | **18,568** | 16,169 |
| | ===== | ===== |

## 20. Rhwymedigaethau amodol

**a.** Ar 1 Ebrill 1994 trosglwyddodd dau o gyn-gyflogeion Cyngor Celfyddydau Cymru eu cytundebau cyflogaeth i Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cymeradwyo trefniant i Gyngor Celfyddydau Cymru indemnio'r Ffederasiwn am hawliadau diswyddo a gronnwyd gan y cyflogeion hyn yn ystod eu gwasanaeth i'r Cyngor. Mae un o'r cyflogeion hyn wedi ymddeol a bydd y rhwymedigaeth amodol hon yn lleihau ymhellach wrth i gyfnod gwasanaeth y cyflogai arall â'r Ffederasiwn ymestyn.

| | **2004** | 2003 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Rhwymedigaeth amodol | **10,330** | 12,410 |
| | ===== | ===== |

**b.** Setlwyd y cais heb ei benderfynu a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol hyd at 31 Mawrth 2003 o blaid yr hawliwr. Roedd y Cyngor yn atebol am iawndal a chostau a gynhwysir yn y datganiadau ariannol hyn.

## 21. Gweithgareddau Cyffredinol a Dosbarthiad y Loteri: adnoddau cyfunol a dderbyniwyd a gwariant celfyddydol elusennol uniongyrchol

Dengys y cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri ar wahân gyfran y Cyngor ar gyfer 2003/2004 o'r elw o'r Loteri Genedlaethol o £10,824,000 (2002/2003: £11,473,000). Cyfanswm cyfunol yr adnoddau a dderbyniwyd ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a gweithgareddau'r Loteri ar gyfer 2003/2004 oedd £35,788,000 (2002/2003: £35,647,000).

Cynhwysir grantiau cyffredinol ar y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol cyn gynted â'u cynigir. Dim ond pan fydd y derbynnydd yn derbyn y cynnig yn ffurfiol y codir grantiau'r loteri. Er na chodir pob un fel gwariant yn y Cyfrif Incwm a Gwariant, yn ystod 2003/2004 cymeradwyodd y Cyngor grantiau Loteri gwerth £10,841,000 (2002/2003: £8,807,000). Ar y sail hon, cyfanswm cyfunol gwariant elusennol celfyddydol uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a gweithgareddau yn ymwneud â'r Loteri ar gyfer 2003/2004 oedd £32,055,000 (2002/2003: £28,244,000).

## 22. Trafodion partïon cysylltiedig

### Cyrff cyhoeddus

Mae'r Cyngor yn gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn ni chafodd y Cyngor unrhyw drafodion perthnasol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar wahân i'r cymorth grant a ddatgelir yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Cynulliad Cenedlaethol Cymru oedd noddwr cyrff cyhoeddus eraill y cafodd y Cyngor drafodion perthnasol â hwy, gan gynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, fel y datgelir yn Nodyn 4 i'r cyfrifon.

### Unigolion

Ymgymerodd aelodau o'r Cyngor, staff rheoli allweddol neu bartïon cysylltiedig eraill (a oedd yn aelodau o'r teulu agos) â thrafodion ariannol perthnasol (a restrir isod) â'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Cofnodir trafodion â'r Cyngor fel dosbarthwr arian y Loteri yn y nodyn cyfatebol i Gyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri sydd ar wahân.

## 22. Trafodion partïon cysylltiedig (parhad)

### Aelodau'r Cyngor

Yr oedd nifer o Aelodau'r Cyngor a/neu eu teulu agos yn aelodau o Fyrddau Rheoli (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt) neu'n uwch-gyflogeion sefydliadau a dderbyniodd grantiau yn 2003/2004 gan y Cyngor. Ym mhob achos o'r fath, yn unol â Chod Arfer Gorau y Cyngor, gadawodd yr Aelod dan sylw unrhyw gyfarfod yn ystod trafodaeth ar y cais.

| Aelod | Sefydliad | Trafodyn (nifer) | Cyfanswm grantiau £ |
|---|---|---|---|
| **Geraint Talfan Davies** | | | |
| Cadeirydd a Chyfarwyddwr | Opera Cenedlaethol Cymru | 1 | 3,810,922 |
| **Dai Davies** | | | |
| (Teulu) – Cyfarwyddwr | Earthfall | 1 | 127.456 |
| (Teulu) – Cyfarwyddwr | Sgript Cymru | 2 | 292,846 |
| **Meg Elis** | | | |
| Cyflogai | Cyngor Gwynedd | 1 | 6,030 |
| Cyflogai | Prifysgol Cymru, Bangor (gan gynnwys Archif Cerddoriaeth Draddodiadol) | 1 | 3,347 |
| **Ellen ap Gwynn** | | | |
| Cadair | Hyfforddiant Celfyddydau Cymru | 1 | 75,100 |
| Cynghorydd | Cyngor Sir Ceredigion (gan gynnwys Theatr Felinfach) | 1 | 30,980 |
| Aelod o'r Cyngor | Prifysgol Cymru, Aberystwyth (gan gynnwys Canolfan Celfyddydau Aberystwyth a'r Ganolfan ar gyfer Ymchwil i Berfformiad) | 3 | 512,848 |
| (Teulu) – Cyflogai | Sgrîn Cymru Wales | 1 | 306,782 |
| **Janet Roberts** | | | |
| Cadair | Theatr Gwynedd | 1 | 100,614 |
| **Hazel Walford Davies** | | | |
| (Teulu) – Aelod o'r Bwrdd | Ymddiriedolaeth Taliesin Cyf. | 1 | 106,244 |

### Staff rheoli allweddol

Yn ystod y flwyddyn nid oedd gan unrhyw unrhyw aelod o staff rheoli allweddol a/neu eu teulu agos gysylltiadau â sefydliadau y bu i'r Cyngor gynnal trafodion ariannol perthnasol â hwy.